# Cyngor Sir Ynys Môn

# Polisi Diogelu Data

# Fersiwn 2.0 (Mawrth 2020)

**Ynglŷn â'r polisi hwn**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â gofynion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data

Felly bydd y Cyngor yn dilyn gweithdrefnau sy'n bwriadu sicrhau bod holl weithwyr, aelodau etholedig, contractwyr, asiantiaid , ymgynghorwyr, partneriaid neu weision eraill y Cyngor sydd â mynediad at unrhyw ddata personol a gedwir gan y Cyngor, neu ar ei ran, yn gwbl ymwybodol o'u dyletswyddau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data ac y byddant yn cadw atynt.

Cefnogir y Polisi gan adnoddau ar wefan y Cyngor.

**Hanes adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Crynodeb o'r newidiadau |
|---|---|---|
| 1.0 | Mai 2018 | Polisi Newydd |
| 2.0 | Mawrth 2020 | Mân newidiadau wedi eu gwneud yn dilyn adolygiad. |

| Dyddiad yr adolygiad nesaf | |
|---|---|
| Adolygir y polisi hwn ar: | Mawrth 2022 |
| Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan: | Swyddog Diogelu Data |

**Manylion Cyswllt:** Swyddog Diogelu Data
dpo@ynysmon.gov.uk
**01248 751806**

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn mewn fformatau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Polisi Diogelu Data


1. **Datganiad Polisi**
2. **Cwmpas**
3. **Diffiniadau**
4. **Egwyddorion ynglŷn â Diogelu Data**
5. **Y Sail dros Brosesu Gwybodaeth Bersonol**
6. **Gwybodaeth Bersonol Sensitif**
7. **Gwybodaeth ynglŷn â Chofnodion Troseddol**
8. **Asesiadau Effaith Diogelu Data (AEDDau)**
9. **Dogfennaeth a chofnodion**
10. **Hysbysiad Preifatrwydd**
11. **Hawliau'r Unigolyn**
12. **Rhwymedigaethau'r Unigolyn**
13. **Diogelwch Gwybodaeth**
14. **Storio, cadw a Gwybodaeth Bersonol**
15. **Mynediad Diawdurdod at Ddata**
17. **Trosglwyddiadau Data Mewnol**
18. **Hyfforddiant**
19. **Canlyniadau methu â chydymffurfio**


Mae'n rhaid i chi ddarllen y polisi hwn oherwydd ei fod yn rhoi gwybodaeth bwysig ynglŷn â'r:

- egwyddorion diogelu data y mae'n rhaid i Gyngor Sir Môn gydymffurfio â nhw;
- beth a olygir gan ddata personol a chategorïau arbennig o ddata personol;
- sut yr ydym yn casglu, defnyddio ac (yn y pen draw) yn dileu data personol a chategorïau arbennig o ddata yn unol â'r egwyddorion diogelu data;
- lle y gellir dod o hyd i wybodaeth preifatrwydd manylach, e.e. ynglŷn â'r data personol yr ydym yn ei gasglu ac yn ei ddefnyddio amdanoch, sut mae'n cael ei ddefnyddio, ei storio a'i drosglwyddo, ar gyfer pa ddibenion, y camau sy'n cael eu cymryd i gadw'r wybodaeth honno yn ddiogel a faint o amser y mae'n cael ei chadw;
- eich hawliau a'ch rhwymedigaethau chi mewn perthynas â diogelu data; a'r
- canlyniadau o fethu â chydymffurfio â'r polisi hwn.

## 1. DATGANIAD POLISI

1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio ag anghenion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018. Mae'r polisi hwn hefyd yn ymwneud â'r gofynion deddfwriaethol a ganlyn sy'n gosod dyletswyddau ar y Cyngor:

- Deddf Llywodraeth Leol 1972
- Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Ddata) 1985
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004
- Rheoliadau Ailddefnyddio Gwybodaeth Sector Cyhoeddus 2005

1.2 Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut yr ydym yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau diogelu data a cheisio diogelu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â'n gweithlu. Ei ddiben yn ogystal yw sicrhau bod aelodau o'r staff yn deall ac yn cydymffurfio â'r rheolau sy'n llywodraethu casglu, defnyddio a dileu gwybodaeth bersonol a all fod ganddyn nhw fynediad ati wrth iddyn nhw wneud eu gwaith.

1.3 Rydym yn ymrwymedig i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau diogelu data, a bod yn gryno, yn glir ac yn dryloyw ynglŷn â sut rydym yn cael ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol sy'n gysylltiedig â'n gweithlu, a sut (a phryd) yr ydym yn dileu'r wybodaeth honno unwaith nad oes mo'i hangen mwyach.

1.4 Mae Swyddog Diogelu Data'r Cyngor yn gyfrifol am roi gwybod a chynghori'r Cyngor a'i staff ynglŷn â'i rwymedigaethau diogelu data, ac am fonitro cydymffurfiaeth â'r rhwymedigaethau hynny a chyda polisïau'r Cyngor. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu sylwadau ynglŷn â chynnwys y polisi hwn neu os ydych chi angen gwybodaeth bellach, dylech chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.

1.5 Bydd unrhyw dorri amodau'r polisi hwn yn cael ei ystyried yn ddifrifol a gall arwain at weithredu disgyblaethol a sancsiynau ariannol.

1.6 Er mwyn gweithredu yn effeithlon, mae angen i'r Cyngor gasglu a defnyddio gwybodaeth am y bobl y mae'n gweithio gyda nhw. Gall y rhain gynnwys aelodau o'r cyhoedd, gweithwyr presennol, gweithwyr y gorffennol a darpar weithwyr a/neu weithwyr, cleientiaid a chwsmeriaid a chyflenwyr. Yn ychwanegol, gall fod angen iddo drwy gyfraith gasglu a defnyddio gwybodaeth er mwyn cydymffurfio ag anghenion llywodraeth ganolog.

1.7 Mae'n rhaid i'r wybodaeth bersonol hon gael ei thrin a'i hymdrin yn gywir, pa ffordd bynnag y mae'n cael ei chasglu, ei chofnodi a'i defnyddio, p'un a yw hynny ar bapur, mewn cofnodion ar gyfrifiadur neu wedi'i gofnodi mewn unrhyw fodd arall.

1.8 Mae'r Cyngor yn ystyried bod triniaeth gyfreithlon a chywir o wybodaeth bersonol yn bwysig iawn i'w weithrediadau llwyddiannus a chynnal hyder rhwng y Cyngor a'r rhai hynny y mae'n darparu / trefnu gwasanaethau a'r rhai hynny y mae'n gwneud busnes gyda nhw. Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn trin gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon ac yn gywir.

## 2. SGOP

2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i wybodaeth bersonol ymgeiswyr swyddi, staff presennol a chyn-staff, yn cynnwys gweithwyr, gweithwyr dros dro a gweithwyr asianataeth, interniaid, gwirfoddolwyr a phrentisiaid, cleientiaid, cwsmeriaid a chyflenwyr.

2.2 Dylai staff gyfeirio at Bolisi Diogelu Data Cyngor Sir Ynys Môn a, lle bo'n briodol, at ganllawiau a pholisïau perthnasol eraill mewn perthynas â rhyngrwyd, e-bost a chyfathrebu, monitro, cyfryngau cymdeithasol, diogelwch, cadw data, a gwybodaeth ynglŷn â chofnodion troseddol, sy'n cynnwys gwybodaeth bellach ynglŷn â diogelu gwybodaeth bersonol yn y cyd-destunau hynny.

2.3 Byddwn yn adolygu ac yn diweddaru'r polisi hwn *yn rheolaidd* yn unol â'n rhwymedigaethau diogelu data. Nid yw'n ffurfio rhan o unrhyw gontract cyflogaeth y gweithiwr. Gallwn ddiwygio, diweddaru neu atodi gwybodaeth ato o dro i dro a byddwn yn dosbarthu unrhyw bolisi newydd neu addasedig i staff pan fydd yn cael ei fabwysiadu.

2.4 Mae rhai o'r cyfrifoldebau yn y polisi hwn yn ymestyn i weithwyr y Cyngor tu hwnt i gyfnod eu cyflogaeth neu i Aelodau etholedig tu hwnt i'w cyfnod yn y swydd. Cyfeiria'r paragraff hwn yn benodol at eu cyfrifoldeb parhaus i gadw'n ddiogel a pheidio â datgelu'n gyhoeddus ddata personol unrhyw drydydd parti (yn arbennig unrhyw wybodaeth bersonol sensitif) y gallent fod wedi cael mynediad breintiedig ato yn rhinwedd eu cyfnod o gyflogaeth neu eu cyfnod yn y swydd.

## 3. DIFFINIADAU

| | |
|---|---|
| **gwybodaeth ynglŷn â chofnodion troseddol** | mae'n golygu gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol a throseddau, honiadau, trafodion a mesurau diogelwch cysylltiedig; |
| **Mynediad diawdurdod at data** | mae'n golygu tanseilio diogelwch sy'n arwain at ddistrywio, colli, newid, datgelu anawdurdodedig damweiniol neu anghyfreithlon o wybodaeth bersonol neu fynediad ati hi; |
| **gwrthrych y data** | mae'n golygu'r unigolyn y mae'r wybodaeth bersonol yn ymwneud ag ef; |

| | |
|---|---|
| **data personol** | mae'n golygu gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn a ellir ei adnabod (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) o'r wybodaeth honno; |
| **prosesu gwybodaeth** | mae'n golygu cael, cofnodi, trefnu, storio, diwygio, adalw, datgelu a/neu ddistrywio gwybodaeth, neu'i defnyddio neu wneud unrhyw beth gyda hi; |
| **Defnyddio ffugenwau** | mae'n golygu'r broses ar gyfer prosesu'r wybodaeth bersonol yn y fath fodd fel na ellir ei defnyddio i adnabod unigolyn heb y defnydd o wybodaeth ychwanegol, sy'n cael ei chadw ar wahân ac yn destun mesurau technegol a sefydliadol i sicrhau na ellir priodoli'r wybodaeth bersonol i unigolyn adnabyddadwy; |
| **Rheolwr data ar y cyd** | Lle mae dau neu fwy o reolwyr yn penderfynu ar y cyd beth yw pwrpas y prosesu a'r dull prosesu. Gall y sefyllfa hon godi lle mae'r Cyngor yn casglu data ar ran partneriaeth fwy ar lefel rhanbarthol neu Gymru gyfan. |
| **categorïau arbennig o ddata personol** | mae'n golygu gwybodaeth bersonol ynglŷn â hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur (neu nad yw'n aelod), gwybodaeth ynglŷn â geneteg a gwybodaeth biometrig (pan mae'n cael ei ddefnyddio i adnabod unigolyn) a gwybodaeth ynghylch iechyd yr unigolyn, bywyd rhywiol neu darddiad rhywiol. |

3.1 Mae data yn wybodaeth sy'n cael ei storio yn electronaig, ar gyfrifiadur, neu ar systemau ffeilio papur.

3.2 Rheolyddion data yw'r bobl, neu'r sefydliadau, sy'n penderfynu'r dibenion ar gyfer, a'r modd y mae, unrhyw ddata personol yn cael ei brosesu. Mae ganddyn nhw gyfrifoldeb i sefydlu ymarferion a pholisïau yn unol â'r Ddeddf. Cyngor Sir Ynys Môn yw rheolyddion data'r holl ddata personol sy'n cael ei ddefnyddio yn ein Awdurdod ni.

3.3 Mae defnyddwyr data yn cynnwys gweithwyr lle mae eu gwaith yn cynnwys defnyddio data personol. Mae gan ddefnyddwyr data ddyletswydd i ddiogelu'r wybodaeth y maen nhw yn ei thrin drwy ddilyn ein polisïau diogelu a gwarchod data bob amser.

3.4 Mae proseswyr data yn cynnwys unrhyw unigolyn sy'n prosesu data personol ar ran rheolydd data (ar wahân i weithiwr y rheolydd data). Fel y nodwyd uchod, y Cyngor yw'r rheolydd data ac felly mae gweithwyr y Cyngor yn cael eu heithrio o'r diffiniad hwn. Felly, gallai Proseswyr Data gynnwys cyflenwyr sy'n trin data personol ar ein rhan.

## 4. EGWYDDORION YNGLŶN Â DIOGELU DATA

4.1 Bydd y Cyngor yn rhoi mesurau technegol a sefydliadol ar waith i ddangos ei fod wedi ystyried ac ymgorffori diogelu data ym mhob un o'i weithgareddau

prosesu, yn unol ag egwyddorion diogelu data perthnasol, cyfreithiau a hawliau unigolion fel y cânt eu nodi yn isod yn yr adran hon. Ymagwedd y Cyngor tuag at ddiogelu data, fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), yw 'diogelu data drwy ddylunio ac yn ddiofyn' a 'preifatrwydd drwy ddylunio'.

4.2 Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data canlynol wrth brosesu gwybodaeth bersonol:

4.2.1 byddwn yn prosesu data personol yn gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw;

4.2.2 byddwn yn casglu data personol ar gyfer dibenion penodol, manwl a chyfreithlon yn unig, ac ni fyddwn yn ei brosesu mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion cyfreithlon hynny;

4.2.3 byddwn diim ond yn prosesu'r data personol sy'n ddigonol, perthnasol ac angenrheidiol ar gyfer dibenion perthnasol;

4.2.4 byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol fanwl gywir a chyfredol, a byddwn yn cymryd camau rhesymol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth bersonol sy'n anghywir yn cael ei dileu neu'i chywiro heb oedi;

4.2.5 byddwn yn cadw data personol ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau'r data ddim hirach nag sydd ei angen ar gyfer dibenion y mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu; a

4.2.6 byddwn yn cymryd mesurau technegol a sefydliadol priodol er mwyn sicrhau bod data personol yn cael ei gadw yn ddiogel a'i ddiogelu yn erbyn prosesu anawdurdodedig ac anghyfreithlon, ac yn erbyn colled, distryw neu ddifrod damweiniol.

4.3. Ar ben hynny, mae yna egwyddor gyffredinol o atebolrwydd sy'n golygu bod rhaid i'r Cyngor nid yn unig gydymffurfio â chwe egwyddor y GDPR ond rhaid iddo gael ei weld yn cydymffurfio â hwy yn ei wedd gyhoeddus a gallu dangos cydymffurfiaeth os caiff ei arolygu gan gyrff rheoleiddio, megis Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

**4.4 Egwyddor Gyntaf y GDPR: prosesu teg a chyfreithlon;**

4.4.1 Rhaid prosesu data personol dim ond pan fo gan y Cyngor sail gyfreithlon ar gyfer cyflawni'r gweithgaredd.

4.4.2 Mae'r GDPR yn nodi chwe sail gyfreithlon ar gyfer prosesu, fel a ganlyn:

1) Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol y mae'r rheolwr yn ddarostyngedig iddo. Mae hyn yn gymwys i'r holl wasanaethau statudol y mae'n ofynnol i'r Cyngor eu darparu.

2) Mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr. Mae hyn yn berthnasol i bob gwasanaeth lle mae'r Cyngor wedi'i

rymuso ond nid yw'n ofynnol iddo ddarparu gwasanaeth drwy ddeddfwriaeth (er enghraifft darparu tai cyngor).

3) Mae prosesu yn angenrheidiol i gyflawni contract y mae gwrthrych y data yn barti iddo neu er mwyn cymryd camau ar gais gwrthrych y data cyn ymrwymo i gontract.

4) Mae prosesu er budd hanfodol gwrthrych y data.

5) Mae prosesu yn un o fuddiannau cyfreithlon y Cyngor ac nid yw'n rhagfarnu preifatrwydd yr unigolyn yn ormodol. Mae hyn yn berthnasol i wasanaethau mewnol fel y gyflogres ac adnoddau dynol yn unig, ac ni ellir ei gymhwyso i dasg gyhoeddus y Cyngor.

6) Mae gwrthrych y data wedi rhoi caniatâd i brosesu ei ddata personol at un neu fwy o ddibenion penodol. Mae hyn yn bennaf berthnasol i weithgarwch marchnata.

**4.5 Ail egwyddor y GDPR: dibenion penodol a chyfreithlon**

4.5.1 Wrth gasglu data personol neu wrth sefydlu gweithgareddau diogelu data newydd, dylai staff sicrhau bod gwrthrychau data yn derbyn hysbysiadau preifatrwydd priodol i'w hysbysu o sut y caiff y data ei ddefnyddio. Mae eithriadau cyfyngedig i'r gofyniad hwn, a nodir yn GDPR.

4.5.2 Mae 'hysbysiad preifatrwydd' yn ddatganiad sy'n esbonio rhai neu'r cyfan o'r ffyrdd y mae sefydliad yn casglu, yn defnyddio, yn datgelu, ac yn rheoli'r data personol y mae'n ei gasglu gan ei gwsmeriaid neu ei gleientiaid. Mae'n cyflawni rhan o ofyniad cyfreithiol y sefydliad i barchu preifatrwydd cwsmer neu gleient wrth gasglu a rhannu data personol.

**4.6 Trydedd egwyddor y GDPR: digonol, perthnasol a ddim yn ormodol**

4.6.1 Dylai staff sicrhau bod y data a brosesir ganddynt yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gymesur at y diben y'i cafwyd. Yn gyffredinol, ni ddylid defnyddio data personol a geir ar gyfer un diben at ddibenion digyswllt oni bai bod yr unigolyn wedi cytuno i hyn neu y byddai fel arall yn rhesymol ddisgwyl i'r data gael ei ddefnyddio yn y modd hwn.

**4.7 Pedwaredd egwyddor y GDPR: cywirdeb**

4.7.1 Gall unigolion ofyn i'r Cyngor gywiro data personol sy'n ymwneud â hwy, sydd yn eu barn hwy yn anghywir. Os bydd aelod o staff yn derbyn cais o'r fath ac nad yw'n cytuno bod y data personol a gedwir yn anghywir, dylent serch hynny gofnodi'r ffaith ei fod yn destun dadl a hysbysu'r Swyddog Diogelu Data.

**4.8 Pumed egwyddor y GDPR: cadw dim ond cyhyd ag y bo angen**

4.8.1 Ni ddylid cadw data personol am fwy o amser nag sydd raid. Dylai staff ddilyn yr atodlen ar gyfer cadw cofnodion corfforaethol i gael arweiniad. Gall hyd yr amser y dylid cadw'r data hwnnw amrywio o'r atodlen hon gan ddibynnu ar amgylchiadau penodol, gan gynnwys unrhyw resymau arbennig pam y'i cafwyd.

**4.9 Chweched egwyddor y GDPR: diogelwch**

4.9.1 Mae'n rhaid i staff gadw data personol yn ddiogel rhag colled neu gamddefnydd yn unol â'r Fframwaith Polisi Diogelwch TGCh. Lle mae'r Cyngor yn defnyddio sefydliadau allanol i brosesu data personol ar ei ran, mae angen rhoi trefniadau diogelwch ychwanegol ar waith mewn contractau gyda'r sefydliadau hynny er mwyn diogelu diogelwch data personol. Dylai staff ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data i drafod y camau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth wrth sefydlu unrhyw gytundeb prosesu data newydd neu newid unrhyw gytundeb sydd eisoes yn bodoli.

## 5. Cydymffurfio â hawliau Unigolion o dan y GDPR

5.1 Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn rhoi sawl hawl i unigolion o ran eu gwybodaeth bersonol.

5.2 Bydd y Cyngor yn rhoi cyfres o reolau a gweithdrefnau ar waith, gan greu llif gwaith ar gyfer gwerthuso ceisiadau, mewn perthynas â'r hawliau unigol canlynol o dan y GDPR:

### 5.2.1 Yr hawl i gael eu hysbysu

5.2.1.1 Bydd y Cyngor yn egluro ar y pwynt casglu sut mae'n bwriadu defnyddio'r data y mae'n ei gasglu, a fydd yn rhannu'r data gydag unrhyw un arall, beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu a pha hawliau unigolion sy'n gymwys. Y prif ddull o gyfathrebu'r wybodaeth hon fydd nodyn preifatrwydd corfforaethol wedi'i ategu gan ddatganiad preifatrwydd byr yn y man casglu sy'n cyfeirio ymhlith pethau eraill yr hysbysiad llawn.

5.2.1.2 Bydd fersiynau eraill o'r hysbysiad preifatrwydd yn ei ategu, sydd yn addas ar gyfer egluro'r cysyniadau o breifatrwydd a diogelu data i blant ac i eraill a allai yn rhesymol ddisgwyl bod y wybodaeth ar gael mewn fformatau eraill, mwy hygyrch.

### 5.2.2 Yr Hawl i Fynediad

5.2.2.1 Mae gan unigolion hawl (yn ddarostyngedig i eithriadau penodol a bennir yn y Ddeddf Diogelu Data) i ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir amdanynt. Dylai pob cais o'r fath am fynediad gan wrthrych gael ei gofnodi ar lefel gorfforaethol a'i gyfeirio ymlaen yn syth at y swyddog (ion) perthnasol ar gyfer gweithredu. Mae prydlondeb yn arbennig o bwysig gan fod yn rhaid i'r Cyngor ymateb i gais dilys o fewn terfynau amser a ragnodir yn gyfreithiol.

### 5.2.3 Yr hawl i gywiro

5.2.3.1 Mae hawl gan unigolion gael data personol wedi'i gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn. Rhaid i'r Cyngor ymateb o fewn un mis i unrhyw gais rhesymol i gywiro, er y gellir ymestyn hyn o ddau fis pan fo'r cais am gywiro yn gymhleth. Os yw'r

Cyngor wedi rhannu'r data personol dan sylw gydag asiantaethau eraill, rhaid rhoi gwybod i bob asiantaeth a gofyn iddynt wneud yr un peth - oni bai bod hyn yn amhosibl neu'n golygu ymdrech anghymesur. Os gofynnir iddynt, rhaid i staff hefyd hysbysu gwrthrychau'r data am yr asiantaethau hynny y gallai eu data fod yn anghywir hefyd.

5.2.3.2 Os gwrthodir y cais am gywiro (er enghraifft pan fydd dilysrwydd gwrthrych y data yn cael ei herio), rhaid i staff esbonio pam i'r unigolyn, gan roi gwybod iddynt am eu hawl i apelio i'r Swyddog Diogelu Data a cheisio datrysiad barnwrol.

**5.2.4 Yr hawl i gyfyngu ar brosesu**

5.2.4.1 Mae gan unigolion hawl i atal eu data personol rhag cael ei brosesu mewn rhai amgylchiadau. Gellir parhau i gadw'r data ond rhaid peidio â'i brosesu.

5.2.4.2 Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y mae gofyn i'r Cyngor gyfyngu ar brosesu data personol: lle mae unigolyn yn herio cywirdeb y data personol; yn dilyn gwrthwynebiad i brosesu, lle mae'r Cyngor yn ystyried a yw ei seiliau cyfreithlon yn drech na rhai'r unigolyn (mae hyn yn berthnasol dim ond pan fo'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu naill ai'n cyflawni'r dasg gyhoeddus neu'n arfer buddiannau cyfreithlon, gweler 6.2 isod); pan fydd prosesu yn anghyfreithlon a'r unigolyn yn gwrthwynebu dileu ac yn gofyn am gyfyngiad yn lle hynny; os nad oes angen y data personol mwyach ar y Cyngor ond bod yr unigolyn angen y data i sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliad cyfreithiol.

**5.2.5 Yr hawl i wrthwynebu prosesu**

5.2.5.1 Lle bo'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yn cyflawni tasg gyhoeddus neu arfer buddiannau cyfreithlon, mae gan unigolion yr hawl i wrthwynebu prosesu, gan gynnwys unrhyw broffilio sy'n seiliedig ar y darpariaethau hynny. Ni fydd y Cyngor yn prosesu'r data personol mwyach oni bai y gall ddangos sail gyfreithiol gymhellol ar gyfer y prosesu sy'n drech na buddiannau, hawliau a rhyddid gwrthrych y data.

5.2.5.2 Lle mae'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yn gydsyniad, mae gan unigolion hawl absoliwt i wrthwynebu i'r Cyngor brosesu eu data at y diben hwn, ac mae'n rhaid i staff ymateb i'r galwad hwnnw ar unwaith yn ddi-gwestiwn. Mae'r sail gyfreithiol hon ar gyfer prosesu a'r hawl hon yn gymwys yn arbennig i unrhyw farchnata uniongyrchol a wneir gan y Cyngor, er enghraifft marchnata ar gyfer ei wasanaethau diwylliannol, hamdden a gwasanaethau dewisol eraill.

**5.2.6 Hawliau ar wneud penderfyniadau awtomataidd a phroffilio**

5.2.6.1 Mae gan unigolion yr hawl i gael eu hysbysu pan fydd eu data yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau awtomataidd ac i

broffilio. Nid yw'r Cyngor yn cynnal gweithgaredd o'r fath ar hyn o bryd, felly nid yw'r amod yn berthnasol ar hyn o bryd. Mae nodyn i'r perwyl hwn i'w weld yn yr hysbysiad preifatrwydd.

### 5.2.7 Hawl i gludadwyedd data

5.2.7.1 Mae gan unigolion yr hawl i fynnu bod eu data personol yn cael ei drosglwyddo i asiantaeth arall (er enghraifft wrth symud i ardal arall). Mae'n caniatáu iddynt symud, copïo neu drosglwyddo data personol yn hawdd o un amgylchedd TG i'r llall mewn modd saff a diogel, heb rwystr i ddefnyddioldeb. Dim ond lle mae'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu yn perfformio contract neu'n seiliedig ar ganiatâd y mae'r hawl gyfyngedig hon yn gymwys, felly nid yw'n berthnasol i awdurdodau lleol i raddau helaeth.

### 5.2.8 Hawl i ddilead neu 'hawl i gael eu hanghofio'

5.2.8.1 Mae gan unigolion yr hawl hefyd, yn achos dibyniaeth ar gydsynio, i fynnu bod eu data personol yn cael ei ddileu yn gyfan gwbl o'r gweithgaredd prosesu penodol, yr hyn a elwir yn ' hawl i gael eu hanghofio '. Mae'r hawl gyfyngedig hon yn berthnasol yn bennaf i weithgarwch marchnata uniongyrchol gan y Cyngor.

## 6. Y SAIL DROS BROSESU DATA PERSONOL

6.1 Mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd prosesu, cyn i'r prosesu ddechrau am y tro cyntaf, ac yna yn rheolaidd tra mae'n parhau, byddwn yn:

6.1.1 adolygu dibenion y gweithgaredd prosesu penodol, a dewis y sail gyfreithlon fwyaf priodol (neu'r seiliau) ar gyfer y prosesu hwnnw, h.y.:

6.1.1.1 bod gwrthrych y data wedi rhoi caniatâd i'r prosesu ddigwydd;

6.1.1.2 bod y prosesu yn angenrheidiol ar gyfer perfformio'r gontract y mae gwrthrych y data yn barti neu er mwyn cymryd camau ar gais gwrthrych y data cyn llunio contract;

6.1.1.3 bod y prosesu yn angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data neu unrhyw unigolyn naturiol arall;

**6.1.1.4 bod y prosesu yn angenrheidiol er mwyn perfformio tasg a wnaed er budd y cyhoedd neu ymarfer awdurdod swyddogol;**

6.1.2 ac eithrio pan mae'r prosesu yn seiliedig ar ganiatâd, ein bod yn boddhau ein hunain bod y prosesu yn angenrheidiol ar gyfer y diben o sail gyfreithlon berthnasol (h.y. nad oes unrhyw ffordd resymol arall o gyflawni'r diben hwnnw);

6.1.3 dogfennu ein penderfyniad ynghylch pa sail gyfreithlon y mae'n berthnasol, helpu i ddangos ein cydymffurfiaeth â'r egwyddorion diogelu data;

6.1.4 cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r diben o brosesu a'r sail gyfreithlon amdano fel ei gilydd yn ein hysbysiad(au) preifatrwydd;

6.1.5 Lle ma categorïau arbennig o ddata yn cael eu prosesu, hefyd adnabod amod arbennig cyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth honno a'i dogfennu; a

6.1.6 phan mae gwybodaeth ynglŷn â throseddau yn cael ei phrosesu, nodi yn ogystal amod cyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth honno, a'i ddogfennu;

6.2 Wrth benderfynu a yw buddiannau cyfreithlon Cyngor Sir Ynys Môn y sail mwyaf addas ar gyfer prosesu cyfreithlon, byddwn yn:

6.2.1 cynnal asesiad buddiannau cyfreithlon (ABC) ac yn cadw cofnod ohono, er mwyn sicrhau y gallwn ni gyfiawnhau ein penderfyniad;

6.2.2 os yw'r ABC yn nodi effaith preifatrwydd sylweddol, ystyriwch a ydym ni yn ogystal angen cynnal asesiad o effaith diogelu data (AEDD).

6.2.3 cadw'r ABC o dan adolygiad, a'i ailadrodd os yw amgylchiadau yn newid; a

6.2.4 chynnwys gwybodaeth ynglŷn â'n buddiannau cyfreithlon yn ein hysbysiad(au) preifatrwydd perthnasol.

## 7. CATEGORÏAU ARBENNIG O DDATA

7. Cyfeirir at gategorïau arbennig o ddata personol ambell waith fel 'gwybodaeth bersonol sensitif' neu 'ddata personol sensitif'.

7.2 Gall y Cyngor o dro i dro fod angen prosesu gwybodaeth bersonol sensitif. Byddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol sensitif yn unig os:

7.2.1 Oes gennym ni sail gyfreithlon dros wneud hynny fel yr amlinellir uchod, e.e. ei bod yn angenrheidiol ar gyfer perfformiad y gontract gyflogaeth, er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol y Cyngor neu ar gyfer dibenion buddiannau cyfreithlon y Cyngor; ac

7.2.2 yw un o'r amodau arbennig ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol sensitif yn berthnasol, e.e.:

7.2.2.1 pan mae gwrthrych y data wedi rhoi caniatâd manwl;

7.2.2.2 mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer y dibenion o ymarfer hawliau'r gyfraith gyflogaeth neu rwymedigaethau'r Cyngor neu wrthrych y data;

7.2.2.3 mae'r prosesu yn angenrheidiol i ddiogelu buddiannau hanfodol gwrthrych y data, ac mae gwrthrych y data yn gorfforol analluog i roi caniatâd;

7.2.2.4 mae'r prosesu yn ymwneud â data personol sy'n cael ei wneud yn amlwg gyhoeddus gan wrthrych y data;

7.2.2.5 mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol; neu

7.2.2.6 mae'r prosesu yn angenrheidiol oherwydd rhesymau budd y cyhoedd sylweddol.

7.3 Cyn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol sensitif, mae'n rhaid i staff hysbysu'r Swyddog Diogelu Data ynglŷn â'r prosesu arfaethedig, er mwyn bod y Swyddog Diogelu Data yn gallu asesu a yw'r prosesu yn cydymffurfio â'r meini prawf a nodwyd uchod.

7.4 Ni fydd gwybodaeth bersonol sensitif yn cael ei phrosesu tan:

7.4.1 y bydd yr asesiad y cyfeirir ato ym mharagraff 7.3 wedi digwydd; a

7.4.2 bod yr unigolyn wedi cael gwybod yn iawn (drwy hysbysiad preifatrwydd neu fel arall) o natur y prosesu, y dibenion y mae wedi cael ei wneud a'r sail gyfreithiol drosto.

7.5 Ni fydd y Cyngor yn gwneud penderfyniad awtomataidd (yn cynnwys proffilio) yn seiliedig ar wybodaeth bersonol sensitif unrhyw unigolyn.

7.6 Mae *Hysbysiadau Preifatrwydd diogelu data*'r Cyngor yn amlinellu'r mathau o wybodaeth bersonol sensitif y mae'r Cyngor yn ei phrosesu drwy'r Gwasanaeth, ar gyfer beth y mae'n cael ei defnyddio a'r sail gyfreithlon dros ei phrosesu.

7.7. Mewn perthynas â chategorïau arbennig o ddata, bydd y Cyngor yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau a nodwyd yn y polisi hwn er mwyn iddo gydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a nodir ym mharagraff 4 uchod.

7.8 **Yn ystod y broses broses recriwtio:** bydd yr adran AD, gyda chanllawiau gan y Swyddog Diogelu Data yn sicrhau bod (ar wahân i lle mae'r gyfraith yn caniatáu fel arall):

7.8.1 yn ystod y cyfnodau tynnu rhestr fer, cyfweld a gwneud penderfyniadau, ni ofynnir unrhyw gwestiynau ynglŷn â gwybodaeth bersonol sensitif e.e. hil neu darddiad ethnig, aelodaeth o undeb llafur neu iechyd;

7.8.2 os derbynnir gwybodaeth bersonol sensitif, e.e. mae'r ymgeisydd yn ei darparu cyn bod gofyn amdani yn ei CV neu'n ystod y cyfweliad, nid oes unrhyw gofnod yn cael ei gadw ohoni ac mae unrhyw gyfeiriad ati yn cael ei ddileu neu'i olygu yn syth;

7.8.3 mae unrhyw ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal a gwblhawyd yn cael ei chadw ar wahân i ffurflen gais yr unigolyn, ac nid yw'n cael ei gweld gan yr unigolyn sy'n tynnu rhestr fer, cyfweld neu'n gwneud penderfyniad recriwtio;

7.8.4 ni fyddwn yn gofyn cwestiynau ynglŷn ag iechyd mewn cysylltiad â recriwtio NEU ddim ond yn gofyn cwestiynau ynglŷn ag iechyd, unwaith y mae cynnig cyflogaeth wedi cael ei wneud.

7.9 **Yn ystod cyflogaeth:** bydd yr adran AD, gyda chanllawiau gan y Swyddog Diogelu Data yn prosesu:

7.9.1 gwybodaeth iechyd ar gyfer dibenion gweinyddu tâl salwch, cadw cofnodion absenoldeb salwch, monitro presenoldeb staff a hwyluso buddion iechyd a salwch sy'n gysylltiedig â chyflogaeth;

7.9.2 gwybodaeth bersonol sensitif ar gyfer dibenion monitro cyfleoedd cyfartal ac adrodd am gydraddoldeb cyflog. Lle bo'n bosibl, bydd y wybodaeth hon yn ddienw; a

7.9.3 gwybodaeth am aelodaeth undebau llafur ar gyfer dibenion gweinyddiaeth staff a gweinyddu didynnu taliadau tanysgrifio i undebau drwy'r gyflogres.

## 8. GWYBODAETH YNGLŶN Â CHOFNODION TROSEDDOL

Bydd gwybodaeth ynglŷn â chofnodion troseddol yn cael ei phrosesu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngor.

## 9. ASESIADAU EFFAITH DIOGELU DATA (AEDDau)

9.1 Pan mae prosesu yn debygol o arwain at risg uchel i hawliau diogelu data unigolyn (e.e. pan mae'r Cyngor yn cynllunio defnyddio math newydd o dechnoleg), cyn dechrau'r prosesu, byddwn yn ymgymryd ag AEDD er mwyn asesu:

9.1.1 a yw'r prosesu yn angenrheidiol ac yn gymesur mewn perthynas â'i ddiben;

9.1.2. y risgiau i unigolion; a

9.1.3 pha fesurau a ellir eu sefydlu i ymdrin â'r risgiau hynny a diogelu gwybodaeth bersonol.

9.2 Cyn i unrhyw fath newydd o dechnoleg gael ei gyflwyno, dylai'r rheolwr sy'n gyfrifol gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data er mwyn cynnal AEDD.

9.3 Yn ystod cynnal AEDD, bydd y gwasanaeth yn ceisio cael cyngor gan y Swyddog Diogelu Data a barn grŵp cynrychiadol o weithwyr ac unrhyw randdeiliaid perthnasol eraill (lle bo'n berthnasol).

## 10. DOGFENNAETH A CHOFNODION

10.1 Byddwn yn cadw cofnodion ysgrifenedig o weithgareddau prosesu sydd mewn risg uchel, h.y. a all arwain at risg i hawliau a rhyddidau unigolion neu gynnwys gwybodaeth bersonol sensitif neu wybodaeth ynglŷn â chofnodion troseddol, gan gynnwys:

10.1.1 enw a manylion y Gwasanaeth, aelodau staff perthnasol (a lle bo'n berthnasol, o reolyddion eraill a SDD y Cyngor);

10.1.2 dibenion y prosesu;

10.1.3 disgrifiad o gategorïau'r unigolion a chategorïau y data personol;

10.1.4 categorïau o dderbynwyr y data personol;

10.1.5 lle bo'n bosibl, amserlenni cadw; a

10.1.6 lle bo'n bosibl, disgrifiad o fesurau diogelwch technegol a sefydliadol.

10.2 Fel rhan o'n gweithgareddau prosesu, rydym yn dogfennu, neu'n cysylltu i'r ddogfennaeth, ynglŷn â:

10.2.1 gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer hysbysiadau preifatrwydd;

10.2.2 cofnodion caniatâd;

10.2.3 contractau rheolydd-proseswr

10.2.4 lleoliad y wybodaeth bersonol;

10.2.5 AEDDau; a

10.2.6 chofnodion ynglŷn â mynediadau diawdurdod at ddata.

10.3 Os ydym yn prosesu gwybodaeth bersonol sensitif neu wybodaeth ynglŷn â chofnodion troseddol, byddwn yn cadw cofnodion ysgrifenedig am:

10.3.1 y diben/dibenion perthnasol y mae'r prosesu yn digwydd, gan gynnwys (lle bo'r angen) pam y mae'n angenrheidiol ar gyfer y diben hwnnw;

10.3.2 y sail gyfreithlon dros ein prosesu; ac

10.3.3 a ydym yn cadw ac yn dileu'r wybodaeth bersonol yn unol â'n dogfen bolisi ac, os nad ydym, y rhesymau am beidio â dilyn ein polisi.

10.4 Byddwn yn cynnal adolygiadau rheolaidd am y wybodaeth bersonol yr ydym yn ei phrosesu a byddwn yn diweddaru ein dogfennaeth yn unol â hynny. Gall hyn gynnwys:

10.4.1 cynnal archwiliadau gwybodaeth er mwyn darganfod pa wybodaeth bersonol sydd gan y Cyngor;

10.4.2 dosbarthu holiaduron a siarad gyda staff drwy'r Cyngor i gael darlun cyflawn ynglŷn â'n gweithgareddau prosesu; ac

10.4.3 adolygu ein polisïau, gweithdrefnau, contractau a chytundebau i ymdrin â meysydd fel cadw, diogelwch a rhannu data.

10.5 Rydym yn dogfennu ein gweithgareddau prosesu yn electronig, fel y gallwn ni ychwanegu, tynnu a diwygio gwybodaeth yn hawdd.

## 11. HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

11.1 Bydd y Cyngor yn cyhoeddi hysbysiadau preifatrwydd o dro i dro, gan roi gwybod i chi ynglŷn â'r wybodaeth bersonol yr ydym yn ei chasglu a'i dal sy'n ymwneud â chi, sut y gallwch chi ddisgwyl eich gwybodaeth bersonol gael ei defnyddio ac ar gyfer pa ddibenion.

11.2 Byddwn yn cymryd mesurau priodol i ddarparu gwybodaeth mewn hysbysiadau preifatrwydd mewn modd cryno, tryloyw, hawdd ei deall a chael ati, drwy ddefnyddio iaith eglur a phlaen.

## 12. HAWLIAU'R UNIGOLYN

12.1 Mae'n bosib bod gennych chi (yn gyffredin gyda gwrthrychau data eraill) yr hawliau canlynol mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol:

12.1.1 cael eich hysbysu ynglŷn â sut, pam ac ar ba sail y mae'r wybodaeth honno yn cael ei phrosesu - [gweler Hsbysiad Preifatrwydd y Cyngor];

12.1.2 cael cadarnhad bod eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu a chael mynediad ati a gwybodaeth benodedig arall, drwy wneud cais mynediad gan wrthrych – gweler Polisi Cais Gwrthrych am Wybodaeth y Cyngor;

12.1.3 cael cywiro'r data os yw'n anghywir neu'n anghyflawn;

12.1.4 cael dileu data os nad oes mo'i angen mwyach ar gyfer y diben yr oedd wedi cael ei gasglu/brosesu yn wreiddiol, neu os nad oes unrhyw seiliau cyfreithlon tra phwysig ar gyfer y prosesu (mae hwn yn cael ei adnabod ambell waith fel 'yr hawl i fod yn anghof');

12.1.5 cyfyngu prosesu'r wybodaeth bersonol lle mae amheuaeth ynglŷn â chywirdeb y wybodaeth, neu fod y prosesu yn anghyfreithlon (ond nid ydych chi'n dymuno dileu'r data), neu pan nad yw'r Cyngor angen y wybodaeth bersonol mwyach, ond rydych chi angen y data i sefydlu, ymarfer neu amddiffyn hawliad cyfreithiol; a

12.1.6 chyfyngu prosesu'r wybodaeth bersonol dros dro, pan nad ydych chi'n meddwl ei bod yn fanwl gywir (ac mae'r Cyngor yn gwirio a yw'n fanwl gywir), neu pan rydych chi wedi gwrthwynebu i'r prosesu (a bod y cyflogwr yn ystyried a yw seiliau cyfreithlon y sefydliad yn bwysicach na'ch buddiannau chi).

12.2 Os ydych yn dymuno ymarfer unrhyw un o'r hawliau testun data, cysylltwch â' Swyddog Diogelu Data. .

## 13. RHWYMEDIGAETHAU'R UNIGOLYN

13.1 Mae unigolion yn gyfrifol am helpu'r Cyngor i gadw eu gwybodaeth bersonol yn gyfredol. Dylech chi roi gwybod i'r adran AD os yw'r wybodaeth yr ydych chi wedi'i darparu i'r Cyngor wedi newid, er enghraifft, os ydych chi'n symud tŷ neu'n newid manylion banc neu gymdeithas adeiladu trwy'r hyn yr ydych yn cael eich talu. Fel arall, gallwch chi ddiweddaru eich gwybodaeth bersonol eich hun yn ddiogel drwy fewnrwyd y Cyngor.

13.2 Gall fod gennych chi fynediad at wybodaeth bersonol aelodau eraill o staff, cyflenwyr a chwsmeriaid NEU gleientiaid y Cyngor yn ystod eich cyflogaeth neu'ch swydd. Os felly, mae'r Cyngor yn disgwyl i chi helpu i gwrdd â'i rwymedigaethau diogelu data i'r unigolion hynny.

13.3 Os oes gennych chi fynediad at wybodaeth bersonol, mae'n rhaid i chi:

13.3.1 gael mynediad at y wybodaeth bersonol sydd gennych chi'r awdurdod i gael mynediad ato yn unig, ac ar gyfer dibenion awdurdodedig yn unig;

13.3.2 caniatáu staff eraill o'r Cyngor i gael mynediad at wybodaeth bersonol os oes ganddyn nhw'r awdurdodaeth briodol yn unig;

13.3.3 caniatáu unigolion nad ydyn nhw'n staff y Cyngor yn unig i gael mynediad at wybodaeth bersonol os oes gennych chi awdurdod penodol i wneud hynny gan y Swyddog Diogelu Data;

13.3.4 cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel (e.e. drwy gydymffurfio â rheolau ynglŷn â mynediad i'r adeilad, mynediad at gyfrifiaduron, diogelu cyfrineiriau a storio a distrywio ffeiliau diogel a rhagofalon eraill a amlinellwyd ym Mholisi Diogelwch TGCh y Cyngor;

13.3.5 peidio â thynnu gwybodaeth bersonol, na dyfeisiau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol (neu'r hyn y gellir ei ddefnyddio i gael mynediad ati), o adeiladu'r Cyngor os nad oes mesurau diogelwch priodol ar gael (fel defnyddio ffugenwau, amgryptiad neu ddiogelwch cyfrinair) er mwyn diogelu'r wybodaeth a'r ddyfais; a

13.3.6 pheidio â storio gwybodaeth bersonol ar yriannau lleol neu ar ddyfeisiau personol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer dibenion gwaith.

13.4 Dylech chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data os ydych chi'n pryderu neu'n amau bod un o'r canlynol wedi digwydd (neu'n digwydd neu'n debygol o ddigwydd):

13.4.1 prosesu data personol heb sail gyfreithlon dros ei brosesu neu, yn achos gwybodaeth bersonol sensitif, heb gwrdd ag unrhyw un o'r amodau ym mharagraff 7.2.2;

13.4.2 unrhyw fynediad diawdurdod at ddata a amlinellwyd ym mharagraff 16 isod;

13.4.3 mynediad at wybodaeth bersonol heb yr awdurdod cywir;

13.4.4 gwybodaeth bersonol nad yw wedi cael ei chadw na'i dileu yn ddiogel;

13.4.5 tynnu gwybodaeth bersonol, neu ddyfeisiau sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol (neu'r hyn y gellir ei ddefnyddio i gael mynediad ati), o adeiladau'r Cyngor heb sefydlu mesurau diogelwch priodol;

13.4.6 unrhyw dor-amodau arall o'r polisi hwn neu o unrhyw egwyddorion diogelu data a amlinellwyd ym mharagraff 4 uchod.

## 14. DIOGELWCH GWYBODAETH

14.1 Bydd y Cyngor yn defnyddio mesurau technegol a sefydliadol yn unol â pholisïau'r Cyngor i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel, ac yn benodol er mwyn diogelu yn erbyn prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colli, distrywio neu niweidio yn ddamweiniol. Gall y rhain gynnwys:

14.1.1 sicrhau, lle bo'n bosibl, bod gwybodaeth bersonol yn defnyddio ffugenwau ac wedi cael ei hamgryptio;

14.1.2 sicrhau bod cyfrinachedd, didwylledd, argaeledd a gwydnwch parhaus y systemau a'r gwasanaethau prosesu;

14.1.3 sicrhau bod, pe byddai digwyddiad corfforol neu dechnegol, y gellir adfer argaeledd a chael mynediad at wybodaeth bersonol mewn modd amserol; a

14.1.4 phroses ar gyfer profi, asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau technegol a sefydliadol yn rheolaidd ar gyfer sicrhau diogelwch y prosesu;

14.2 Pan mae'r Cyngor yn defnyddio sefydliadau allanol i brosesu gwybodaeth bersonol ar ei ran, mae angen gweithredu trefniadau diogelwch ychwanegol mewn contractau gyda'r sefydliadau hynny er mwyn gwarchod diogelwch y wybodaeth bersonol. Yn benodol, mae'n rhaid i gontractau gyda sefydliadau allanol amodi:

14.2.1 y gall y sefydliad weithredu yn unig ar gyfarwyddiadau ysgrifenedig y Cyngor;

14.2.2 mae'r rhai hynny sy'n prosesu'r data yn ddarostyngedig i ddyletswydd o hyder;

14.2.3 mae mesurau priodol yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau diogelwch y prosesu;

14.2.4 mae isgontractwyr yn cael eu cyflogi gyda chaniatâd blaenorol y Cyngor ac o dan gontract ysgrifenedig;

14.2.5 bydd y sefydliad yn cynorthwyo'r Cyngor i ddarparu mynediad gan wrthrych a chaniatáu unigolion i ymarfer eu hawliau mewn perthynas â diogelu data;

14.2.6 bydd y sefydliad yn cynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â'i rwymedigaethau ynglŷn â diogelwch y prosesu, hysbysu ynglŷn â mynediad diawdurdod at ddata ac asesiadau effaith diogelu data;

14.2.7 bydd y sefydliad yn dileu neu'n dychwelyd pob gwybodaeth bersonol at y Cyngor fel y gofynnir ar ddiwedd y gontract; a

14.2.8 bydd y sefydliad yn ufuddhau i archwiliadau ac arolygiadau, darparu'r Cyngor gyda pha wybodaeth bynnag y mae ei angen er mwyn sicrhau bod y ddau yn cwrdd â'u rhwymedigaethau diogelu data eu hunain, a dweud wrth y Cyngor yn syth os gofynnir iddo wneud unrhyw beth sy'n ymyrryd ar gyfraith diogelu data.

14.3 Cyn llunio unrhyw gytundeb newydd sy'n cynnwys prosesu gwybodaeth bersonol gan sefydliad allanol, neu os yw cytundeb sy'n bodoli yn cael ei newid, mae'n rhaid i'r staff perthnasol geisio cael cymeradwyaeth o'i delerau gan y Swyddog Diogelu Data.

## 15. STORIO, CADW A GWYBODAETH BERSONOL

15.1 Bydd gwybodaeth bersonol (a gwybodaeth bersonol sensitif) yn cael ei chadw yn ddiogel yn unol â Pholisi Diogelwch TGCh y Cyngor.

15.2 Ni ddylai gwybodaeth bersonol (a gwybodaeth bersonol sensitif) gael ei chadw yn hirach nag sy'n angenrheidiol. Bydd yr amser y dylid cadw'r data yn dibynnu ar yr amgylchiadau, yn cynnwys y rhesymau pam y cafwyd y wybodaeth bersonol. Dylai'r staff ddilyn Polisi Rheoli Cofnodion y Cyngor sydd yn amlinellu'r cyfnod cadw perthnasol, neu'r meini prawf y dylid eu defnyddio i benderfynu ar y cyfnod cadw. Pan mae unrhyw ansicrwydd, dylai staff ymgynghori â'r Swyddog Diogelu Data.

15.3 Bydd gwybodaeth bersonol (a gwybodaeth bersonol sensitif) nad oes mo'i hangen mwyach yn cael ei dileu yn barhaol oddi ar ein systemau gwybodaeth a bydd unrhyw gopïau caled yn cael eu distrywio yn ddiogel.

## 16. MYNEDIAD DIAWDURDOD AT DDATA

16.1 Gall mynediad diawdurdod at ddata fod mewn llawer o ffurfiau gwahanol, er enghraifft:

16.1.1 colli neu ddwyn data neu gyfarpar lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei storio;

16.1.2 mynediad anawdurdodedig at wybodaeth bersonol neu ddefnydd o wybodaeth bersonol un ai gan aelod o staff neu drydydd parti;

16.1.3 colli data o ganlyniad i fethiant cyfarpar neu systemau (yn cynnwys caledwedd a meddalwedd);

16.1.4 camgymeriad dynol, fel dileu neu newid data yn ddamweiniol;

16.1.5 amgylchiadau na ragwelwyd, fel tân neu lifogydd;

16.1.6 ymosodiadau bwriadol ar systemau TG, fel hacio, firysau neu sgiamau gwe-rwydo; a

Bydd y Cyngor yn:

16.1.7 llunio'r adroddiad sydd ei angen ynglŷn â mynediad diawdurdod at ddata i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth heb oedi gormodol a, lle bo'n bosibl o fewn 72 awr ar ôl dod yn ymwybodol ohono, os yw'n debygol o arwain at risg i hawliau a rhyddidau unigolion; a

16.1.8 hysbysu'r unigolion sy'n cael eu heffeithio os yw mynediad diawdurdod at ddata yn debygol o arwain at risg uchel i'w hawliau a'u rhyddidau a bod hysbysiad yn ofynnol drwy'r gyfraith.

## 17. TROSGLWYDDIADAU DATA MEWNOL

17.1 Ni fydd y Cyngor yn trosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), sy'n cynnwys y gwledydd yn yr Undeb Ewropeaidd a Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a Norwy.

17.2 Os oes angen i'r Cyngor drosglwyddo gwybodaeth bersonol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, efallai i'r Unol Daleithiau er enghraifft, bydd y Cyngor yn defnyddio Tarian Breifatrwydd. Bydd digonolrwydd y darian hon yn cael ei hadolygu'n flynyddol. Dylai'r adolygiad blynyddol hwn fynd i'r afael â gofyniad y GDPR i gynnal adolygiad rheolaidd, o leiaf unwaith bob pedair blynedd, o ddatblygiadau perthnasol.

## 18. Monitro Cydymffurfiaeth

18.1 Dylai'r cyngor ddilyn y polisi hwn ar gyfer pob proses a gweithdrefn berthnasol yn ei weithgareddau gweithredol. Asesir pa mor effeithiol y bydd y polisi yn cael ei ymgorffori o dan brosesau a gweithdrefnau adrannol o bryd i'w gilydd drwy'r broses archwilio fewnol ac ar gais y Swyddog Diogelu Data, a gaiff gynnal ymchwiliad mewnol heb roi rhybudd neu dderbyn cydsyniad ymlaen llaw os bydd ganddo ef/hi achos i bryderu. Ymysg mesurau eraill, bydd archwiliadau o'r fath o feysydd gwasanaeth yn:

- Nodi meysydd gweithredu o fewn y maes gwasanaeth a gwmpesir neu nas cwmpesir gan y polisi ac i nodi unrhyw brosesu a/neu weithdrefnau perthnasol nad ydynt yn glynu wrth y polisi.
- Mynnu bod Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data yn cael ei gynnal ar unwaith lle mae dulliau cyfredol o brosesu data yn cyflwyno risg gorfforaethol (er enghraifft lle mae llawer iawn o ddata personol sensitif yn cael ei brosesu gyda mesurau diogelu a allai fod yn annigonol), neu lle mae achos sylweddol o dorri rheolau diogelu data eisoes wedi digwydd.
- Pennu gofynion ar gyfer gweithredu gweithdrefnau gweithredol newydd o ran diogelu data, prosesu data ac ymdrin â cheisiadau am wybodaeth.
- Amlygu lle mae diffyg cydymffurfio â'r gweithdrefnau gweithredol yn digwydd ac awgrymu tynhau mesurau rheoli ac addasu gweithdrefnau cysylltiedig ar ffurf cynllun gweithredu ar gyfer gwella.

## 19. HYFFORDDIANT

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi yn ddigonol ynglŷn â'u cyfrifoldebau diogelu data. Bydd unigolion y mae eu swyddogaethau angen mynediad rheolaidd at wybodaeth bersonol, neu sy'n gyfrifol am weithredu'r polisi hwn neu'n ymateb i geisiadau gwrthrych am wybodaeth o dan y polisi hwn, yn derbyn hyfforddiant ychwanegol er mwyn eu helpu nhw i ddeall eu dyletswyddau a sut i gymdymffurfio â nhw.

## 20. CANLYNIADAU METHU Â CHYDYMFFURFIO

20.1 Mae'r Cyngor yn ystyried cydymffurfio â'r polisi hwn yn ddifrifol iawn. Mae methiant i gydymffurfio â'r polisi yn:

20.1.1 rhoi unigolion y mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu mewn risg; ac

20.1.2 mae risg o sancsiynau sifil a throseddol sylweddol ar gyfer yr unigolyn a'r Cyngor; a

20.1.3 gall, mewn rhai amgylchiadau, olygu bod yr unigolyn wedi cyflawni trosedd.

20.2 Oherwydd pwysigrwydd y polisi hwn, gall methiant y gweithiwr i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad arwain at weithredu disgyblaethol o dan ein gweithdrefnau, a gall y gweithredu hwn arwain at ddiswyddo am gamymddygiad enbyd. Os yw unrhyw un nad yw'n aelod o'r staff yn torri amodau'r polisi hwn, gall eu contract gael eu terfynu yn syth.

20.3 Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon ynglŷn ag unrhyw beth sydd yn y polisi hwn, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data.